OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 691 (Cy. 115)

CYNLLUNIO SEILWAITH, CYMRU

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Caffael Gorfodol) (Cymru) 2025

2025 No. 691 (W. 115)

INFRASTRUCTURE PLANNING, WALES

The Infrastructure Consent (Compulsory Acquisition) (Wales) Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ("Deddf 2024") yn sefydlu proses ymgeisio a chydsynio unedig i alluogi gwneud ac ystyried ceisiadau am gydsyniad seilwaith. Mae'r broses yn gymwys i'r prosiectau seilwaith arwyddocaol a bennir yn Rhan 1 o Ddeddf 2024. Yn fras, prosiectau ynni, trafnidiaeth, gwastraff a dŵr yw'r rhain.

Mae Rhan 2 o Ddeddf 2024 yn cynnwys y gofyniad am gydsyniad seilwaith. Mae Rhan 3 o Ddeddf 2024 yn gwneud darpariaeth ynghylch gwneud cais am gydsyniad seilwaith.

Mae Rhan 4 o Ddeddf 2024 yn cynnwys darpariaeth ynghylch penodi awdurdod i archwilio ceisiadau am gydsyniad seilwaith ("yr awdurdod archwilio") ac ynghylch agweddau penodol ar y broses archwilio. Mae Rhan 5 o Ddeddf 2024 yn cynnwys darpariaethau ynghylch penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith.

Mae Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Y Weithdrefn Cyn Gwneud Cais a'r Weithdrefn Gwneud Cais a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2025 ("Rheoliadau Ceisiadau 2025") yn gwneud darpariaeth sy'n ychwanegol at y ddarpariaeth yn Neddf 2024 ynghylch gofynion cyn gwneud cais a gwneud cais am gydsyniad seilwaith.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The Infrastructure (Wales) Act 2024 ("the 2024 Act") establishes a unified application and consenting process to enable making and consideration of applications for infrastructure consent. The process applies to the significant infrastructure projects that are specified in Part 1 of the 2024 Act. Broadly, they are energy, transport, waste and water projects.

Part 2 of the 2024 Act contains the requirement for infrastructure consent. Part 3 of the 2024 Act makes provision about applying for infrastructure consent.

Part 4 of the 2024 Act contains provision about appointing an authority to examine applications for infrastructure consent ("the examining authority") and about particular aspects of the examination process. Part 5 of the 2024 Act contains provisions about deciding applications for infrastructure consent.

The Infrastructure Consent (Pre-Application and Application Procedure and Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2025 ("the 2025 Application Regulations") make provision additional to that in the 2024 Act about pre-application requirements and applying for infrastructure consent.

Mae Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Archwilio a Phenderfynu) (Gweithdrefn) (Cymru) 2025 ("Rheoliadau Archwiliadau 2025") yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag awdurdod archwilio, paratoi ar gyfer ceisiadau a'u harchwilio a phrosesau ar ôl archwilio. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithdrefnau ychwanegol ac atodol pan fo'r gorchymyn cydsyniad seilwaith y gwneir cais amdano yn awdurdodi caffael tir neu hawliau dros dir yn orfodol.

The Infrastructure Consent (Examination and Decision) (Procedure) (Wales) Regulations 2025 ("the 2025 Examination Regulations") make provision in relation to an examining authority, preparation for and the examination of applications and post-examination processes. These Regulations make provision for additional and supplementary procedures where the infrastructure consent order applied for will authorise compulsory acquisition of land or rights over land.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau cyffredinol.

Part 1 of these Regulations makes general provisions.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn nodi gweithdrefnau cyn gwneud cais i'w dilyn cyn cyflwyno i Weinidogion Cymru gais am gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn ychwanegol at y gweithdrefnau a bennir yn Rhan 3 o Reoliadau Ceisiadau 2025. Mae'r Rhan hon hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer estyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno cais a bennir yn rheoliad 14 o Reoliadau Ceisiadau 2025.

Part 2 of these Regulations sets out pre-application procedures to be followed before an application for infrastructure consent that contains a compulsory acquisition request is submitted to the Welsh Ministers. These are additional procedures to those specified in Part 3 of the 2025 Application Regulations. This Part also makes provision for extending the time limit for submitting an application specified in regulation 14 of the 2025 Application Regulations.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn nodi'r gweithdrefnau y mae rhaid eu dilyn wrth gyflwyno a dilysu cais sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn ychwanegol at y gweithdrefnau yn Rhan 4 o Reoliadau Ceisiadau 2025. Mae hefyd yn cynnwys y diffiniad ar gyfer cyfeirlyfr.

Part 3 of these Regulations sets out the procedures that must be followed when submitting and validating an application that contains a compulsory acquisition request. These are in addition to the procedures in Part 4 of the 2025 Application Regulations. It also includes the definition for book of reference.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer diwygio cais am gydsyniad seilwaith i gynnwys archiad caffael gorfodol am dir nad oedd wedi ei gynnwys i gychwyn. Mae'r gweithdrefnau hyn ar wahân i'r gweithdrefnau yn Rhan 6 o Reoliadau Ceisiadau 2025.

Part 4 of these Regulations sets out the procedures for amending an application for infrastructure consent to include a compulsory acquisition request for land not initially included. These are separate procedures to those in Part 6 of the 2025 Application Regulations.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn nodi sut y mae Gweinidogion Cymru i ymdrin â sylwadau a gyflwynir gan berson a nodir yn y cyfeirlyfr.

Part 5 of these Regulations sets out how representations received from a person identified in the book of reference are to be dealt with by the Welsh Ministers.

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau hyn yn nodi'r weithdrefn ar gyfer pennu'r weithdrefn archwilio ar gyfer cais am gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys, neu sydd wedi ei amrywio i gynnwys, archiad caffael gorfodol. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cyflwyno hysbysiadau o benderfyniadau a rhesymau. Mae'r Rhan hon hefyd yn gwneud addasiadau i Reoliadau Archwiliadau 2025 pan fo cais yn cael ei amrywio i gynnwys archiad caffael gorfodol am dir ychwanegol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn ychwanegol at y gweithdrefnau yn Rhan 3 o Reoliadau Archwiliadau 2025 ac yn atodol iddynt.

Part 6 of these Regulations sets out the procedure for determining the examination procedure for an application for infrastructure consent that includes, or has been varied to include, a compulsory acquisition request. It also contains provisions for the service of notices of decisions and reasons. This Part also makes modifications to the 2025 Examination Regulations where an application is varied to include a compulsory acquisition request for additional land. These procedures are in addition and supplement those in Part 3 of the 2025 Examination Regulations.

Mae Rhan 7 o'r Rheoliadau hyn yn nodi gweithdrefnau y mae rhaid eu cynnal ar ôl gwneud gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n cynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi caffael tir yn orfodol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Part 7 of these Regulations sets out procedures that must take place after an infrastructure consent order that includes provision authorising compulsory acquisition of land is made.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2025 Rhif 691 (Cy. 115)

CYNLLUNIO SEILWAITH, CYMRU

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Caffael Gorfodol) (Cymru) 2025

Gwnaed	*14 Mehefin 2025*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*17 Mehefin 2025*
Yn dod i rym	*15 Rhagfyr 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 30(2), 32(4) a (5), 34(2)(c), 35(1), 38(3), 39, 44(1), (2)(a) ac (c), 60(2)(d) a (4)(d), 65(4), 72(1) a (2), 140(1) a (2)(**1**) a 141(2)(a) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Caffael Gorfodol) (Cymru) 2025 a deuant i rym ar 15 Rhagfyr 2025.

Cymhwyso

2.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i—

(a) cais am gydsyniad seilwaith o dan Ddeddf 2024 sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol, a

(**1**) Am ystyr "Gweinidog priodol" gweler adran 140(4) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 (dsc 3); gweler adran 140(3) fel arall.

(**2**) 2024 dsc 3.

2025 No. 691 (W. 115)

INFRASTRUCTURE PLANNING, WALES

The Infrastructure Consent (Compulsory Acquisition) (Wales) Regulations 2025

Made	*14 June 2025*
Laid before Senedd Cymru	*17 June 2025*
Coming into force	*15 December 2025*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 30(2), 32(4) and (5), 34(2)(c), 35(1), 38(3), 39, 44(1), (2)(a) and (c), 60(2)(d) and (4)(d), 65(4), 72(1) and (2), 140(1) and (2)(**1**) and 141(2)(a) of the Infrastructure (Wales) Act 2024(**2**), make the following Regulations.

PART 1

Preliminary

Title and coming into force

1. The title of these Regulations is the Infrastructure Consent (Compulsory Acquisition) (Wales) Regulations 2025 and they come into force on 15 December 2025.

Application

2. These Regulations apply to—

(a) an application for infrastructure consent under the 2024 Act that includes a compulsory acquisition request, and

(**1**) For the meaning of "appropriate Minister" see section 140(4) of the Infrastructure (Wales) Act 2024 (asc 3); see section 140(3) otherwise.

(**2**) 2024 asc 3.

(b) archiad i amrywio cais i gynnwys archiad caffael gorfodol am dir ychwanegol.

Dehongli

3. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "archiad caffael gorfodol" ("*compulsory acquisition request*") yw archiad i awdurdodi caffael yn orfodol dir, neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir;

ystyr "ardal forol Cymru" ("*Welsh marine area*") yw'r môr sy'n gyfagos i Gymru hyd at derfyn atfor y môr tiriogaethol; ac mae'r cwestiwn ynghylch pa rannau o'r môr sy'n gyfagos i Gymru i'w benderfynu yn unol ag erthygl 6 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999(**1**);

ystyr "awdurdod archwilio" ("*examining authority*") yw person neu banel o bersonau a benodir o dan adran 40 o Ddeddf 2024 mewn cysylltiad â chais penodol;

ystyr "cais" ("*application*") yw cais am gydsyniad seilwaith a wneir o dan adran 32 o Ddeddf 2024 ac mae'n cynnwys cais arfaethedig a chais fel y'i hamrywiwyd;

ystyr "ceisydd" ("*applicant*") yw person sy'n cynnig gwneud cais, neu sydd wedi gwneud cais, am gydsyniad seilwaith;

ystyr "cydsyniad seilwaith" ("*infrastructure consent*") yw'r cydsyniad sy'n ofynnol gan adran 19 o Ddeddf 2024;

mae i "cyfeirlyfr" ("*book of reference*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 13;

ystyr "Cymru" ("*Wales*") yw ardal gyfunol y siroedd a'r bwrdeistrefi sirol yng Nghymru (gweler Rhannau 1 a 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972);(**2**));

mae i "y darpar brynwr" ("*the prospective purchaser*") yr un ystyr ag yn adran 72 o Ddeddf 2024;

mae i "datganiad amgylcheddol" ("*environmental statement*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017(**3**) a rheoliad 2(1) o Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007(**4**);

(**1**) O.S. 1999/672.
(**2**) 1972 p. 70; diwygiwyd Rhannau 1 a 2 o Atodlen 4 gan baragraffau 1 a 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 14).
(**3**) O.S. 2017/567.
(**4**) O.S. 2007/1518.

(b) a request to vary an application to include a compulsory acquisition request for additional land.

Interpretation

3. In these Regulations—

"the 2024 Act" ("*Deddf 2024*") means the Infrastructure (Wales) Act 2024;

"the 2025 Application Regulations" ("*Rheoliadau Ceisiadau 2025*") means The Infrastructure Consent (Pre-Application and Application Procedure and Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2025(**1**);

"the 2025 Examination Regulations" ("*Rheoliadau Archwiliadau 2025*") means The Infrastructure Consent (Examination and Decision) (Procedure) (Wales) Regulations 2025(**2**);

"additional interested person" ("*person ychwanegol a chanddo fuddiant*") means an interested person who has not been given written notice in accordance with regulation 5, 7 or 16;

"additional land" ("*tir ychwanegol*") means land that is not subject to a compulsory acquisition request either in an application accepted as a valid application or in a varied application;

"applicant" ("*ceisydd*") means a person who proposes to make, or has made an application for infrastructure consent;

"application" ("*cais*") means an application for infrastructure consent made under section 32 of the 2024 Act and includes a proposed application and an application as varied;

"book of reference" ("*cyfeirlyfr*") has the meaning given in regulation 13;

"compulsory acquisition notice" ("*hysbysiad caffael gorfodol*") has the meaning given in regulation 29;

"compulsory acquisition request" ("*archiad caffael gorfodol*") means a request to authorise compulsory acquisition of land, or an interest in or right over land;

"environmental statement" ("*datganiad amgylcheddol*") has the meaning given in regulation 2(1) of the Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (Wales)

(**1**) S.I. 2025/690 (W. 114).
(**2**) S.I. 2025/692 (W. 116).

mae i "datganiad declarasiwn breinio cyffredinol" ("*general vesting declaration statement*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 30;

ystyr "Deddf 2024" ("*the 2024 Act*") yw Deddf Seilwaith (Cymru) 2024;

ystyr "gorchymyn cydsyniad seilwaith" ("*infrastructure consent order*") yw gorchymyn a wneir o dan Ddeddf 2024 sy'n rhoi cydsyniad seilwaith;

ystyr "gweithdrefn arbennig y Senedd" ("*special Senedd procedure*") yw'r weithdrefn a bennir yn rheolau sefydlog Senedd Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Senedd;

mae i "hawliad perthnasol" ("*relevant claim*") yr ystyr a roddir gan adran 28(13) o Ddeddf 2024;

mae i "hysbysiad caffael gorfodol" ("*compulsory acquisition notice*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 29;

ystyr "person a chanddo fuddiant" ("*interested person*") yw person a chanddo fuddiant yn y tir y mae'r archiad caffael gorfodol yn ymwneud ag ef neu unrhyw ran o'r tir hwnnw;

ystyr "person ychwanegol a chanddo fuddiant" ("*additional interested person*") yw person â chanddo fuddiant na roddwyd hysbysiad ysgrifenedig iddo yn unol â rheoliad 5, 7 neu 16;

ystyr "Rheoliadau Archwiliadau 2025" ("*the 2025 Examination Regulations*") yw Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Archwilio a Phenderfynu) (Gweithdrefn) (Cymru) 2025(**1**);

ystyr "Rheoliadau Ceisiadau 2025" ("*the 2025 Application Regulations*") yw Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Y Weithdrefn Cyn Gwneud Cais a'r Weithdrefn Gwneud Cais a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2025(**2**);

mae i "tir" ("*land*") yr un ystyr ag yn Neddf 2024 (gweler adran 143) ac mae'n cynnwys unrhyw fuddiant mewn tir neu hawl drosto;

ystyr "tir categori arbennig" ("*special category land*") yw tir y nodir ei fod yn ffurfio rhan o dir comin, man agored, tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, neu randir tanwydd neu ardd gae;

ystyr "tir ychwanegol" ("*additional land*") yw tir nad yw'n ddarostyngedig i archiad caffael gorfodol naill ai mewn cais a dderbyniwyd fel cais dilys neu mewn cais a amrywiwyd;

Regulations 2017(**1**) and regulation 2(1) of the Marine Works (Environmental Impact Assessment) Regulations 2007(**2**);

"examining authority" ("*awdurdod archwilio*") means a person or panel of persons appointed under section 40 of the 2024 Act in respect of a particular application;

"general vesting declaration statement" ("*datganiad declarasiwn breinio cyffredinol*") has the meaning given in regulation 30;

"infrastructure consent" ("*cydsyniad seilwaith*") means the consent required by section 19 of the 2024 Act;

"infrastructure consent order" ("*gorchymyn cydsyniad seilwaith*") means an order made under the 2024 Act granting infrastructure consent;

"interested person" ("*person a chanddo fuddiant*") means a person with an interest in the land to which the compulsory acquisition request relates or any part of that land;

"land" ("*tir*") has the same meaning as in the 2024 Act (see section 143) and includes any interest in or right over land;

"the order land" ("*tir y gorchymyn*") has the same meaning as in section 72 of the 2024 Act;

"the prospective purchaser" ("*y darpar brynwr*") has the same meaning as in section 72 of the 2024 Act;

"relevant claim" ("*hawliad perthnasol*") has the meaning given by section 28(13) of the 2024 Act;

"special category land" ("*tir categori arbennig*") means land identified as forming part of a common, open space, National Trust land, or fuel or field garden allotment;

"special Senedd procedure" ("*gweithdrefn arbennig y Senedd*") means the procedure specified in the standing orders of Senedd Cymru for subordinate legislation that is subject to special Senedd procedure;

"Wales" ("*Cymru*") means the combined area of the counties and county boroughs in Wales (see Parts 1 and 2 of Schedule 4 to the Local Government Act 1972(**3**));

"Welsh marine area" ("*ardal forol Cymru*") means the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea; and the question of which parts of the sea are adjacent to Wales is to

(**1**) O.S. 2025/692 (Cy. 116).
(**2**) O.S. 2025/690 (Cy. 114).

(**1**) S.I. 2017/567.
(**2**) S.I. 2007/1518.
(**3**) 1972 c. 70; parts 1 and 2 of Schedule 4 are amended by paragraphs 1 and 2 of Schedule 1 to the Local Government (Wales) Act 1994 (c. 14).

mae i "tir y gorchymyn" ("*the order land*") yr un ystyr ag yn adran 72 o Ddeddf 2024.

Rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill

4. Gweler adran 136 o Ddeddf 2024 mewn perthynas â darpariaeth yn y Rheoliadau hyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson neu'n awdurdodi person i—

(a) hysbysu person arall am rywbeth, neu

(b) rhoi dogfen i berson arall (pa un a yw'r ddarpariaeth yn defnyddio'r gair "cyflwyno", "rhoi" neu derm arall).

RHAN 2

Ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd cyn gwneud cais

Ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd: hysbysiad ysgrifenedig pan fo cais arfaethedig yn cynnwys archiad caffael gorfodol

5.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys yn ogystal â rheoliadau 8 a 10 o Reoliadau Ceisiadau 2025.

(2) Pan fo'n ofynnol i geisydd gynnal ymgynghoriad o dan adran 30(1) o Ddeddf 2024, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig o'r cais arfaethedig i unrhyw berson y gwyddys, ar ôl cynnal ymchwiliad diwyd, ei fod yn berson a chanddo fuddiant.

Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn hysbysiadau

6. Yn ogystal â'r gofynion yn rheoliad 11 o Reoliadau Ceisiadau 2025, rhaid i'r hysbysiad hefyd gynnwys manylion y tir sydd wedi ei gynnwys yn yr archiad caffael gorfodol.

Ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd: hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer personau ychwanegol a chanddynt fuddiant

7.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo ceisydd yn nodi person ychwanegol a chanddo fuddiant ar ôl rhoi hysbysiad yn unol â rheoliad 5(2).

(2) Rhaid i'r ceisydd roi hysbysiad ysgrifenedig o'r cais arfaethedig i unrhyw berson ychwanegol a chanddo fuddiant o fewn 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad y nodir y person.

be determined in accordance with article 6 of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999(**1**).

Giving notice and other documents

4. See section 136 of the 2024 Act in relation to provision in these Regulations which requires or authorises a person to—

(a) notify another person of something, or

(b) give a document to another person (whether the provision uses the word "serve", "give" or other term).

PART 2

Pre-application consultation and publicity

Consultation and publicity: written notice where a proposed application includes a compulsory acquisition request

5.—(1) This regulation applies in addition to regulations 8 and 10 of the 2025 Application Regulations

(2) Where an applicant is required to carry out consultation under section 30(1) of the 2024 Act, they must give notice in writing of the proposed application to any person they know, after making diligent inquiry, to be an interested person.

Information to be contained in notices

6. In addition to the requirements in regulation 11 of the 2025 Application Regulations the notice must also contain details of the land included in the compulsory acquisition request.

Consultation and publicity: written notice for additional interested persons

7.—(1) This regulation applies where an applicant identifies an additional interested person after giving notice in accordance with regulation 5(2).

(2) The applicant must give notice in writing of the proposed application to any additional interested person within 14 days starting with the day after the date on which the person is identified.

(**1**) S.I. 1999/672.

(3) Pan fo ceisydd yn rhoi hysbysiad o dan baragraff (2) rhaid iddo ar yr un pryd roi hysbysiad i Weinidogion Cymru yn cadarnhau bod yr hysbysiad wedi ei roi i'r person ychwanegol a chanddo fuddiant.

Estyn y cyfnod ar gyfer cyflwyno cais

8.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r dyddiad a bennir(**1**) ar gyfer cael sylwadau yn yr hysbysiad ysgrifenedig a roddir o dan reoliad 7(2)—

(a) o fewn y 56 o ddiwrnodau olaf o'r cyfnod o 18 mis ar gyfer cyflwyno cais o dan reoliad 14(1) o Reoliadau Ceisiadau 2025 (y cyfnod y mae rhaid gwneud ceisiadau o'i fewn), neu

(b) ar ôl i'r cyfnod hwnnw ddod i ben.

(2) Yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn (1), mae'r cyfnod o 18 mis ar gyfer cyflwyno cais yn cael ei estyn 49 o ddiwrnodau.

(3) Yn y rheoliad hwn, pan fo'r cyfnod o 18 mis ar gyfer cyflwyno cais yn cael ei estyn yn unol â rheoliad 14(2) o Reoliadau Ceisiadau 2025, ystyr y cyfnod o 18 mis yw'r cyfnod hwnnw fel y'i hymestynnir.

(3) Where an applicant gives notice under paragraph (2) they must at the same time give notice to the Welsh Ministers confirming that the notice has been given to the additional interested person.

Extension of time for submitting an application

8.—(1) This regulation applies where the date specified(**1**) for representations to be received in the written notice given under regulation 7(2)is—

(a) within the final 56 days of the 18 month period for submitting an application under regulation 14(1) of the 2025 Application Regulations (period within which applications must be made), or

(b) after the expiry of that period.

(2) In the circumstances described in (1), the 18 month period for submitting an application is extended by 49 days.

(3) In this regulation, where the 18 month period for submitting an application is extended in accordance with regulation 14(2) of the 2025 Application Regulations, the 18 month period means that period as extended.

RHAN 3

Ceisiadau

Ceisiadau sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol: gofynion ychwanegol

9.—(1) Yn ogystal â'r gofynion yn rheoliad 15 o Reoliadau Ceisiadau 2025, rhaid i gais am gydsyniad seilwaith gynnwys—

(a) cyfeirlyfr (gweler rheoliad 13),

(b) datganiad o'r rhesymau sy'n cyfiawnhau'r archiad caffael gorfodol,

(c) datganiad cyllid sy'n esbonio sut y mae'r caffaeliad gorfodol i'w ariannu,

(d) plan sy'n nodi unrhyw dir y mae'r archiad caffael gorfodol yn ymwneud ag ef, gan gynnwys y tir hwnnw a fyddai'n cael ei ddiogelu rhag cael ei ddatblygu, unrhyw dir y byddai hawliau preifat drosto yn cael eu diddymu ac unrhyw dir categori arbennig neu dir amnewid, a

(e) dogfen groesgyfeirio.

PART 3

Applications

Applications including a compulsory acquisition request: additional requirements

9.—(1) In addition to the requirements in regulation 15 of the 2025 Application Regulations, an application for infrastructure consent must include—

(a) a book of reference (see regulation 13),

(b) a statement of reasons justifying the compulsory acquisition request,

(c) a statement of funding explaining how the compulsory acquisition is to be funded,

(d) a plan identifying any land to which the compulsory acquisition request relates, including that land which would be protected from development, any land on which private rights would be extinguished and any special category or replacement land, and

(e) a cross-referencing document.

(**1**) Gweler rheoliad 11(f) o Reoliadau Ceisiadau 2025.

(**1**) See regulation 11(f) of the 2025 Application Regulations.

(2) Yn y rheoliad hwn ystyr "dogfen groesgyfeirio" yw dogfen sy'n croesgyfeirio sylwadau cyn gwneud cais oddi wrth bersonau a chanddynt fuddiant â'r cyfeirlyfr ar y ffurf briodol a gyhoeddir ar wefan a gynhelir gan Weinidogion Cymru neu ar ffurf sydd ag effaith sylweddol debyg.

Hysbysiad o bersonau a chanddynt fuddiant mewn tir y mae archiad caffael gorfodol yn ymwneud ag ef

10.—(1) O fewn 7 niwrnod i gael hysbysiad o dan adran 33(3) o Ddeddf 2024, rhaid i'r ceisydd roi i Weinidogion Cymru yr hysbysiad sy'n ofynnol gan adran 38(2).

(2) Rhaid i'r hysbysiad fod ar y ffurf briodol a gyhoeddir ar wefan a gynhelir gan Weinidogion Cymru neu ar ffurf sydd ag effaith sylweddol debyg.

Hysbysiad o gais dilys

11. Yn ogystal â'r personau a bennir yn adran 34(2) o Ddeddf 2024 a rheoliad 23 o Reoliadau Ceisiadau 2025, rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad o gais dilys i unrhyw berson a nodir yn y cyfeirlyfr.

Cynnwys hysbysiad o gais dilys

12. Yn ogystal ag unrhyw ofynion yn adran 34(4)(a) o Ddeddf 2024 a rheoliad 24 o Reoliadau Ceisiadau 2025, rhaid i'r hysbysiad hefyd gynnwys datganiad y caiff y gorchymyn cydsyniad seilwaith awdurdodi caffael gorfodol.

Ystyr "cyfeirlyfr"

13.—(1) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "cyfeirlyfr" yw dogfen mewn pedair rhan ynghyd â phlan.

(2) Rhaid i'r rhan gyntaf gynnwys manylion enwau, cyfeiriadau a gwybodaeth gyswllt pob person sydd yn—

(a) perchennog, lesddeiliad, tenant neu feddiannwr y tir;

(b) person a chanddo fuddiant yn y tir, neu sydd â'r pŵer i werthu, trawsgludo neu ryddhau'r tir.

(3) Rhaid i'r ail ran gynnwys manylion enwau, cyfeiriadau a gwybodaeth gyswllt pob person sy'n mwynhau hawliau preifat dros y tir, gan gynnwys hawliau mordwyo, y cynigir y byddant yn cael eu diddymu, eu hatal dros dro neu yr ymyrrir â hwy.

(4) Rhaid i'r drydedd ran gynnwys manylion enwau, cyfeiriadau a gwybodaeth gyswllt unrhyw berchennog ar fuddiant y Goron yn y tir.

(2) In this regulation "cross-referencing document" means a document that cross-references pre-application representations from interested persons with the book of reference in the appropriate form published on a website maintained by the Welsh Ministers or in a form substantially to the same effect.

Notice of persons interested in land to which compulsory acquisition request relates

10.—(1) Within 7 days of receiving a notice under section 33(3) of the 2024 Act, the applicant must give to the Welsh Ministers the notice required by section 38(2).

(2) The notice must be in the appropriate form published on a website maintained by the Welsh Ministers or in a form substantially to the same effect.

Notice of a valid application

11. In addition to the persons specified in section 34(2) of the 2024 Act and regulation 23 of the 2025 Application Regulations, the Welsh Ministers must give notice of a valid application to any person identified in the book of reference.

Content of a notice of valid application

12. In addition to any requirements in section 34(4)(a) of the 2024 Act and regulation 24 of the 2025 Application Regulations, the notice must also contain a statement that the infrastructure consent order may authorise compulsory acquisition.

Meaning of "book of reference"

13.—(1) In these Regulations "book of reference" means a document in four parts together with a plan.

(2) Part one must contain details of the names, addresses and contact information of each person who is—

(a) an owner, lessee, tenant or occupier of the land;

(b) a person who has an interest in the land, or has the power to sell, convey or release the land.

(3) Part two must contain details of the names, addresses and contact information of each person who enjoys private rights over the land, including rights of navigation, which it is proposed will be extinguished, suspended or interfered with.

(4) Part three must contain details of the names, addresses and contact information of any owner of a Crown interest in the land.

(5) Rhaid i'r bedwaredd ran gynnwys manylion tir categori arbennig, tir amnewid a thir y gallai gorchymyn cydsyniad seilwaith fod yn ddarostyngedig i Weithdrefn Arbennig y Senedd o ganlyniad iddo.

(6) Rhaid i'r plan ddangos unrhyw dir a fydd yn ddarostyngedig i gaffael gorfodol a nodi—

(a) unrhyw dir na fyddai, pe bai'n cael ei gaffael, yn agored i ddatblygiad;

(b) unrhyw dir a fyddai, pe bai'n cael ei gaffael, yn ddarostyngedig i ddiddymu hawliau preifat;

(c) unrhyw dir categori arbennig a fyddai'n ddarostyngedig i gaffael gorfodol;

(d) unrhyw dir amnewid.

(7) Rhaid i'r manylion a gynhwysir ym mhob rhan o'r cyfeirlyfr gael eu diweddaru gan y ceisydd tan ddiwedd unrhyw gyfnod archwilio a nodir mewn amserlen a osodir neu a ddiweddarir gan yr awdurdod archwilio.

(8) Pan fo'r ceisydd yn diweddaru'r manylion yn y cyfeirlyfr, rhaid iddo roi hysbysiad o'r newid i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(9) Yn y rheoliad hwn mae i "buddiant y Goron" yr ystyr a roddir yn adran 134(3) o Ddeddf 2024.

(5) Part four must contain details of special category land, replacement land and land that may result in an infrastructure consent order being subject to the Special Senedd Procedure.

(6) The plan must show any land that will be subject to compulsory acquisition and identify—

(a) any land that, if acquired, would not be subject to development;

(b) any land that, if acquired, would be subject to the extinguishment of private rights;

(c) any special category land that would be subject to compulsory acquisition;

(d) any replacement land.

(7) The details contained in each part of the book of reference must be kept up to date by the applicant until the conclusion of any examination period identified in a timetable set or updated by the examining authority.

(8) Where the applicant updates the details in the book of reference, they must give notice of the change to the Welsh Ministers as soon as reasonably practicable.

(9) In this regulation "Crown interest" has the meaning given in section 134(3) of the 2024 Act.

RHAN 4

Amrywio ceisiadau i gynnwys tir ychwanegol

Gweithdrefn ragnodedig ar gyfer awdurdodi caffael tir yn orfodol

14. Mae rheoliadau 15 i 20 yn rhagnodi'r weithdrefn at ddibenion adran 65(4) o Ddeddf 2024 (tir y gall awdurdodiad i gaffael yn orfodol ymwneud ag ef).

Ymgynghoriad ar ôl dilysu

15.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r ceisydd, ar ôl i Weinidogion Cymru dderbyn cais fel un dilys o dan adran 33 o Ddeddf 2024, yn nodi person ychwanegol a chanddo fuddiant neu dir ychwanegol y mae archiad caffael gorfodol yn ofynnol ar ei gyfer.

(2) Rhaid i'r ceisydd, o fewn 14 o ddiwrnodau, gan ddechrau'r diwrnod ar ôl y dyddiad y nodir y person ychwanegol a chanddo fuddiant neu'r tir ychwanegol, roi hysbysiad i—

(a) unrhyw berson a chanddo fuddiant,

(b) unrhyw berson ychwanegol a chanddo fuddiant,

PART 4

Variation of applications to include additional land

Prescribed procedure for authorisation of compulsory acquisition of land

14. Regulations 15 to 20 prescribe the procedure for the purposes of section 65(4) of the 2024 Act (land to which authorisation of compulsory acquisition can relate).

Post validation consultation

15.—(1) This regulation applies where, after the Welsh Ministers have accepted an application as valid under section 33 of the 2024 Act, the applicant identifies an additional interested person or additional land for which a compulsory acquisition request is required.

(2) The applicant must, within 14 days, starting the day after the date the additional interested person or additional land is identified, give notice to—

(a) any interested person,

(b) any additional interested person,

(c) unrhyw berson a fyddai â hawlogaeth neu a allai fod â hawlogaeth i wneud hawliad perthnasol o ganlyniad i gaffael yn orfodol y tir ychwanegol.

(3) Rhaid i'r hysbysiad gynnwys—

(a) enw'r ceisydd,

(b) lleoliad y datblygiad arfaethedig,

(c) crynodeb o'r datblygiad arfaethedig,

(d) manylion tir a fyddai'n ddarostyngedig i gaffael gorfodol,

(e) manylion ynghylch sut y gellir cyrchu'r wefan sy'n ofynnol o dan reoliad 25 (Rhoi cyhoeddusrwydd i geisiadau dilys: gwefan) o Reoliadau Ceisiadau 2025,

(f) manylion ynghylch sut y mae unrhyw sylwadau i'w cyflwyno, ac

(g) y dyddiad erbyn pa bryd y mae unrhyw sylwadau i ddod i law, y mae rhaid iddo fod yn 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad.

(4) Pan fo'r ceisydd yn rhoi hysbysiad yn unol â (2) rhaid iddo ar yr un pryd hysbysu Gweinidogion Cymru bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal.

Archiad i amrywio cais i gynnwys caffael tir ychwanegol yn orfodol

16.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r ceisydd, ar ôl i Weinidogion Cymru dderbyn cais fel un dilys, yn gwneud archiad i amrywio'r cais hwnnw i gynnwys archiad caffael gorfodol am dir ychwanegol.

(2) Rhaid i'r ceisydd gyflwyno unrhyw archiad i amrywio'r cais yn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad ar gyfer y tir hwnnw yn unol â rheoliad 15(3)(g).

(3) Rhaid i'r archiad i amrywio'r cais gynnwys—

(a) cyfeirlyfr,

(b) datganiad o'r rhesymau sy'n cyfiawnhau'r archiad caffael gorfodol,

(c) datganiad o'r rhesymau dros yr amrywio,

(d) datganiad o'r rhesymau pam na chafodd y tir ychwanegol ei gynnwys yn y cais fel y'i gwnaed,

(e) datganiad o'r rhesymau pam na ellid bod wedi gwneud yr archiad i amrywio'r cais yn gynharach,

(f) datganiad cyllid sy'n esbonio sut y caiff y caffaeliad gorfodol ei ariannu,

(c) any person who would or may be entitled to make a relevant claim as a result of the compulsory acquisition of the additional land.

(3) The notice must include—

(a) the name of the applicant,

(b) the location of the proposed development,

(c) a summary of the proposed development,

(d) details of land that would be subject to compulsory acquisition,

(e) details of how the website required under regulation 25 (Publicity for valid applications: website) of the 2025 Application Regulations can be accessed,

(f) details of how any representations are to be made, and

(g) the date by which any representations are to be received which must be 28 days after the date the notice is given.

(4) Where the applicant gives notice in accordance with (2) they must at the same time give notice to the Welsh Ministers that the consultation is taking place.

Request to vary an application to include compulsory acquisition of additional land

16.—(1) This regulation applies where, after the Welsh Ministers have accepted an application as valid, the applicant requests to vary that application to include a compulsory acquisition request for additional land.

(2) The applicant must submit any request to vary the application in the period of 28 days starting with the day after the date specified in the notice for that land in accordance with regulation 15(3)(g).

(3) The request to vary the application must include—

(a) a book of reference,

(b) a statement of reasons justifying the compulsory acquisition request,

(c) a statement of reasons for the variation,

(d) a statement of reasons why the additional land was not included in the application as made,

(e) a statement of reasons why the request to vary the application could not have been made earlier,

(f) a statement of funding explaining how the compulsory acquisition is to be funded,

(g) dogfen sy'n cynnwys manylion unrhyw berson a fyddai neu a allai fod â hawlogaeth i wneud hawliad perthnasol pe bai'r cydsyniad seilwaith arfaethedig yn cael ei weithredu,

(h) dogfen groesgyfeirio,

(i) datganiad o sut, ym marn y ceisydd, y gellid archwilio'r cais a amrywiwyd yn briodol o fewn yr amserlen ar gyfer penderfynu ar y cais yn unol ag adran 59 o Ddeddf 2024, a

(j) unrhyw ffi sy'n ofynnol.

(4) Yn y rheoliad hwn ystyr "dogfen groesgyfeirio" yw dogfen sy'n croesgyfeirio sylwadau oddi wrth bersonau a chanddynt fuddiant â'r cyfeirlyfr ar y ffurf briodol a gyhoeddir ar wefan a gynhelir gan Weinidogion Cymru neu ar ffurf sydd ag effaith sylweddol debyg.

Derbyn archiad i amrywio cais i gynnwys caffael tir ychwanegol yn orfodol

17.—(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cael archiad i amrywio cais o dan y Rheoliadau hyn, rhaid iddynt benderfynu pa un ai i dderbyn yr archiad o fewn 15 o ddiwrnodau i'r dyddiad y cafwyd yr archiad.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru dderbyn archiad ond os bodlonir y gofynion a nodir yn rheoliad 16.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried y bydd y cais fel y'i hamrywiwyd yn arwain at newid sylweddol yn natur y datblygiad y ceisir cydsyniad seilwaith ar ei gyfer, ni chaniateir iddynt dderbyn yr archiad.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â derbyn archiad, rhaid iddynt roi hysbysiad o'r penderfyniad a'r rhesymau i'r ceisydd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn derbyn yr archiad, mae'r cais wedi ei amrywio.

Estyn yr amserlen ar gyfer penderfynu ar archiad i amrywio cais i gynnwys caffael tir ychwanegol yn orfodol

18.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud cyfarwyddyd i estyn yr amserlen ar gyfer penderfynu ar archiad i amrywio cais.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud cyfarwyddyd o dan baragraff (1) rhaid iddynt roi hysbysiad ysgrifenedig o'r estyniad i'r ceisydd ac unrhyw berson a hysbysir o dan reoliad 15(2).

(3) Rhaid i'r hysbysiad o dan baragraff (2) bennu'r dyddiad erbyn pryd y gwneir penderfyniad ynghylch derbyn yr archiad.

(g) a document containing details of any person who would or might be entitled to make a relevant claim if the proposed infrastructure consent is implemented,

(h) a cross-referencing document,

(i) a statement of how, in the applicant's view, the varied application could be properly examined within the timeframe for deciding the application in accordance with section 59 of the 2024 Act, and

(j) any required fee.

(4) In this regulation "cross-referencing document" means a document that cross-references representations from interested persons with the book of reference in the appropriate form published on a website maintained by the Welsh Ministers or in a form substantially to the same effect.

Acceptance of a request to vary an application to include compulsory acquisition of additional land

17.—(1) Where the Welsh Ministers receive a request to vary an application under these Regulations, they must determine whether to accept the request within 15 days of the date the request is received.

(2) The Welsh Ministers may only accept a request if the requirements set out in regulation 16 are met.

(3) Where the Welsh Ministers consider the varied application will result in a substantial change in the nature of the development for which infrastructure consent is sought, they must not accept the request.

(4) Where the Welsh Ministers decide not to accept a request, they must give notice of the decision and reasons to the applicant as soon as reasonably practicable.

(5) Where the Welsh Ministers accept the request, the application is varied.

Extending the timescale for determining a request to vary an application to include compulsory acquisition of additional land

18.—(1) The Welsh Ministers may make a direction to extend the timescale for determining a request to vary an application.

(2) Where the Welsh Ministers make a direction under paragraph (1) they must provide written notice of the extension to the applicant and any person notified under regulation 15(2).

(3) The notice under paragraph (2) must specify the date by which a determination on accepting the request will be made.

Hysbysiad o gais a amrywiwyd

19.—(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn derbyn archiad i amrywio cais o dan y Rheoliadau hyn, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi hysbysiad o'r cais a amrywiwyd i—

(a) y ceisydd,

(b) pawb a chanddynt fuddiannau mewn tir a nodir yn y cyfeirlyfr nad ydynt eisoes wedi eu hysbysu yn unol â'r rheoliad hwn neu reoliad 11,

(c) unrhyw berson a fyddai neu a allai fod â hawlogaeth i wneud hawliad perthnasol nad yw eisoes wedi ei hysbysu o dan y rheoliad hwn neu reoliad 23 (Hysbysiad o gais dilys) o Reoliadau Ceisiadau 2025, a

(d) unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y dylid yn rhesymol ei hysbysu am y cais.

(2) Rhaid i'r hysbysiad gynnwys—

(a) enw'r ceisydd,

(b) datganiad bod yr archiad i amrywio cais wedi ei dderbyn gan Weinidogion Cymru,

(c) y dyddiad y derbyniwyd yr amrywiad,

(d) y rhif cyfeirnod a ddyrannwyd i'r cais gan Weinidogion Cymru,

(e) lleoliad y datblygiad arfaethedig,

(f) crynodeb o'r datblygiad arfaethedig,

(g) disgrifiad o'r tir y mae'r archiad caffael gorfodol yn ymwneud ag ef,

(h) datganiad o ddiben y caffael gorfodol,

(i) datganiad yn pennu pa un a yw'r cais yn cynnwys datganiad amgylcheddol,

(j) manylion ynghylch ym mha le ac yn ystod pa oriau y mae copi o'r cais ar gael i edrych arno,

(k) manylion ynghylch sut y gellir cyrchu'r wefan sy'n ofynnol o dan reoliad 25 (Rhoi cyhoeddusrwydd i geisiadau dilys: gwefan) o Reoliadau Ceisiadau 2025,

(l) manylion ynghylch sut y caniateir cyflwyno sylwadau, ac

(m) y dyddiad erbyn pryd y mae unrhyw sylwadau i ddod i law, y mae rhaid iddo fod o leiaf 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad.

Notice of varied application

19.—(1) Where the Welsh Ministers accept a request to vary an application under these Regulations they must, as soon as reasonably practicable, give notice of the varied application to—

(a) the applicant,

(b) all land interests identified in the book of reference not already notified in accordance with this regulation or regulation 11,

(c) any person who would or might be entitled to make a relevant claim not already notified under this regulation or regulation 23 (Notice of a valid application) of the 2025 Application Regulations, and

(d) any other person the Welsh Ministers consider should reasonably be informed about the application.

(2) The notice must include—

(a) the name of the applicant,

(b) a statement that the request to vary an application has been accepted by the Welsh Ministers,

(c) the date the variation was accepted,

(d) the reference number allocated to the application by the Welsh Ministers,

(e) the location of the proposed development,

(f) a summary of the proposed development,

(g) a description of the land to which the compulsory acquisition request relates,

(h) a statement of the purpose of the compulsory acquisition,

(i) a statement specifying if the application includes an environmental statement,

(j) details of where and during which hours a copy of the application is available for inspection,

(k) details of how the website required under regulation 25 (Publicity for valid applications: website) of the 2025 Application Regulations can be accessed,

(l) details of how representations can be made, and

(m) the date by which any representations are to be received, which must be at least 28 days after the date the notice is given.

Rhoi cyhoeddusrwydd i gais a amrywiwyd

20.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn derbyn archiad i amrywio cais o dan reoliad 17.

Publicising a varied application

20.—(1) This regulation applies where the Welsh Ministers accept a request to vary an application under regulation 17.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod copi o'r cais ar gael i'r cyhoedd edrych arno, ar bob adeg resymol, mewn man yn ardal leol yr hyn a fydd yn dir y gorchymyn os rhoddir y cydsyniad seilwaith.

(3) Pan fydd unrhyw ddatblygiad a awdurdodir gan y cydsyniad seilwaith yn digwydd yng Nghymru, rhaid i Weinidogion Cymru arddangos hysbysiad ("hysbysiad safle") mewn o leiaf un man ar yr hyn a fydd yn dir y gorchymyn neu gerllaw iddo am ddim llai na 28 o ddiwrnodau.

(4) Pan fo datblygiad yn ymwneud â chynllun llinellol sy'n fwy na 5km o hyd, rhaid arddangos hysbysiad safle bob 5km o leiaf o ddechrau hyd at ddiwedd y llwybr arfaethedig oni bai ei bod yn anymarferol gwneud hynny.

(5) Rhaid i unrhyw hysbysiad safle gynnwys—

(a) enw'r ceisydd,

(b) datganiad bod yr archiad i amrywio'r cais wedi ei dderbyn gan Weinidogion Cymru,

(c) y dyddiad y derbyniwyd yr archiad,

(d) y rhif cyfeirnod a ddyrannwyd i'r cais gan Weinidogion Cymru,

(e) lleoliad y datblygiad arfaethedig,

(f) crynodeb o'r datblygiad arfaethedig,

(g) disgrifiad o'r tir y mae'r archiad caffael gorfodol yn ymwneud ag ef,

(h) datganiad o ddiben y caffael gorfodol,

(i) datganiad yn pennu a yw'r cais yn cynnwys datganiad amgylcheddol,

(j) manylion ynghylch ym mha le ac yn ystod pa oriau y mae copi o'r cais ar gael i edrych arno,

(k) manylion ynghylch sut y gellir cyrchu'r wefan sy'n ofynnol o dan reoliad 25 (Rhoi cyhoeddusrwydd i geisiadau dilys: gwefan) o Reoliadau Ceisiadau 2025,

(l) manylion ynghylch sut y caniateir cyflwyno sylwadau, ac

(m) y dyddiad erbyn pryd y mae unrhyw sylwadau i ddod i law, y mae rhaid iddo fod yn 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei arddangos gyntaf.

(6) Pan fo hysbysiad safle yn cael ei symud ymaith, ei guddio neu ei ddifwyno yn ystod y cyfnod o 28 o ddiwrnodau, trinnir Gweinidogion Cymru fel pe baent wedi cydymffurfio â'r paragraff perthnasol os ydynt wedi cymryd camau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad ac, os oes angen, ei amnewid.

(2) The Welsh Ministers must make a copy of the application available for inspection by the public, at all reasonable hours, at a place in the locality of what will be the order land if the infrastructure consent is granted.

(3) Where any development authorised by the infrastructure consent will take place in Wales, the Welsh Ministers must display a notice ("site notice") in at least one place on or near what will be order land for not less than 28 days.

(4) Where a development relates to a linear scheme exceeding 5km in length, a site notice must be displayed at intervals of no more than 5km from the start to the end of the proposed route unless it is impractical to do so.

(5) Any site notice must include—

(a) the name of the applicant,

(b) a statement that the request to vary the application has been accepted by the Welsh Ministers,

(c) the date the request was accepted,

(d) the reference number allocated to the application by the Welsh Ministers,

(e) the location of the proposed development,

(f) a summary of the proposed development,

(g) a description of the land to which the compulsory acquisition request relates,

(h) a statement of the purpose of the compulsory acquisition,

(i) a statement specifying if the application includes an environmental statement,

(j) details of where and during which hours a copy of the application is available for inspection,

(k) details of how the website required under regulation 25 (Publicity for valid applications: website) of the 2025 Application Regulations can be accessed,

(l) details of how representations can be made, and

(m) the date by which any representations are to be received which must be 28 days after the date the notice is first displayed.

(6) Where a site notice is removed, obscured or defaced during the 28 day period, the Welsh Ministers will be treated as complying with the relevant paragraph if they have taken reasonable steps to protect it and, if need be, replace it.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi hysbysiad o'r cais am un wythnos mewn un papur newydd sy'n cylchredeg yn ardal leol yr hyn a fydd yn dir y gorchymyn os rhoddir y cydsyniad seilwaith.

(8) Pan fydd unrhyw ddatblygiad a awdurdodir gan y cydsyniad seilwaith yn digwydd yn ardal forol Cymru, rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, hefyd gyhoeddi hysbysiad o'r cais yn—

(a) Lloyd's List, a

(b) un cyfnodolyn pysgota, os oes un mewn cylchrediad.

(9) Rhaid i'r hysbysiad a gyhoeddir yn unol â pharagraffau (7) neu (8) gynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol gan baragraff (5).

(7) The Welsh Ministers must publish a notice of the application for one week in one newspaper that circulates in the locality of what will be order land if the infrastructure consent is granted.

(8) Where any development authorised by the infrastructure consent will take place in the Welsh marine area, the Welsh Ministers must, as soon as reasonably practicable, also publish a notice of the application in—

(a) Lloyd's List, and

(b) one fishing journal, if one is in circulation.

(9) The notice published in accordance with paragraphs (7) or (8) must include the information required by paragraph (5).

RHAN 5

Sylwadau

Sylwadau ynghylch cais

21.—(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cael sylw ynghylch cais oddi wrth berson a nodir yn y cyfeirlyfr, rhaid iddynt roi manylion y sylw hwnnw i'r ceisydd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(2) Pan fo ceisydd yn cael manylion sylw, rhaid iddo ddiweddaru unrhyw ddogfen groesgyfeirio a ddarperir o dan reoliadau 9 neu 16.

(3) Pan fo ceisydd yn diweddaru'r ddogfen groesgyfeirio, rhaid iddo ddarparu'r ddogfen wedi ei diweddaru i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y dyddiad yr oedd y sylw i ddod i law fel y nodir mewn unrhyw hysbysiad.

PART 5

Representations

Representations about an application

21.—(1) Where the Welsh Ministers receive a representation about an application from a person identified in the book of reference, they must give details of that representation to the applicant as soon as is reasonably practicable.

(2) Where an applicant receives details of a representation, they must update any cross-referencing document provided under regulations 9 or 16.

(3) Where an applicant updates the cross-referencing document, they must provide the updated document to the Welsh Ministers as soon as reasonably practicable after the date the representation was to be received as specified in any notice.

RHAN 6

Y weithdrefn archwilio a hysbysiad o benderfyniadau

Cyfarfod ynghylch y weithdrefn archwilio

22.—(1) Oni bai bod paragraff (7) yn gymwys, rhaid i'r awdurdod archwilio gynnal cyfarfod cyn dyfarnu'r weithdrefn ar gyfer archwilio cais am gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol neu sydd wedi ei amrywio i gynnwys archiad caffael gorfodol am dir ychwanegol.

(2) Rhaid i'r awdurdod archwilio wahodd y canlynol i'r cyfarfod—

(a) y ceisydd;

(b) pob person a nodir yn y cyfeirlyfr;

PART 6

Examination procedure and notice of decisions

Meeting about examination procedure

22.—(1) Unless paragraph (7) applies, the examining authority must hold a meeting before determining the procedure for examining an application for infrastructure consent that includes a compulsory acquisition request or has been varied to include a compulsory acquisition request for additional land.

(2) The examining authority must invite the following to the meeting—

(a) the applicant;

(b) all persons identified in the book of reference;

(c) unrhyw berson arall y mae'r awdurdod archwilio yn ystyried y dylid rhoi gwybod yn rhesymol iddo am y cyfarfod.

(3) Rhaid i'r gwahoddiad—

(a) datgan pa un a yw'r cyfarfod i gael ei gynnal yn rhannol neu'n gyfan gwbl drwy ddulliau electronig a darparu manylion ynghylch sut y gellir mynychu'r cyfarfod;

(b) pennu dyddiad ac amser y cyfarfod, y mae rhaid iddo fod o leiaf 14 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y rhoddir y gwahoddiad;

(c) gofyn i bob person a nodir yn y cyfeirlyfr gyflwyno sylwadau ynghylch y weithdrefn ar gyfer archwilio caffael tir yn orfodol.

(4) Caiff person a wahoddir i'r cyfarfod gyflwyno sylwadau, ynghylch y weithdrefn ar gyfer archwilio caffael tir yn orfodol, yn ysgrifenedig cyn i'r cyfarfod gael ei gynnal neu yn y cyfarfod.

(5) Caiff yr awdurdod archwilio gynnal y cyfarfod yn absenoldeb unrhyw berson y rhoddwyd gwahoddiad iddo os yw'n ystyried bod hynny'n hwylus.

(6) Rhaid i'r awdurdod archwilio lunio nodyn o'r cyfarfod a sicrhau ei fod ar gael cyn gynted ag y bo'n ymarferol i unrhyw berson a fynychodd y cyfarfod neu a wahoddwyd iddo.

(7) Pan fo'r awdurdod archwilio eisoes wedi penderfynu bod pwnc caffael tir yn orfodol i'w archwilio drwy wrandawiad neu ymchwiliad lleol, nid oes angen iddo gynnal cyfarfod gweithdrefn, ond caiff wneud hynny os yw'n ystyried bod hynny'n hwylus.

Dyfarnu'r weithdrefn pan fo cais yn cael ei amrywio i gynnwys archiad caffael gorfodol am dir ychwanegol

23. Rhaid i'r awdurdod archwilio ddyfarnu'r weithdrefn ar gyfer archwilio cais sydd wedi ei amrywio o dan y Rheoliadau hyn, erbyn y diweddaraf o blith—

(a) diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau a bennir yn rheoliad 10(1) o Reoliadau Archwiliadau 2025 (dyfarniad o'r weithdrefn), neu

(b) diwedd cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod a bennir at ddibenion rheoliad 20(5)(m).

(c) any other person who the examining authority consider should be reasonably informed of the meeting.

(3) The invitation must—

(a) state if the meeting is to take place partly or fully by electronic means and provide details of how the meeting may be attended;

(b) specify the date and time of the meeting which must be at least 14 days after the day on which the invitation is given;

(c) ask all persons identified in the book of reference to make representations about the procedure for examining the compulsory acquisition of land.

(4) A person invited to the meeting may make representations, about the procedure for examining the compulsory acquisition of land, in writing before the meeting takes place or at the meeting.

(5) The examining authority may hold the meeting in the absence of any person given an invitation if it considers it expedient.

(6) The examining authority must prepare a note of the meeting and make it available as soon as practicable to any person who attended or was given an invitation to the meeting.

(7) Where the examining authority has already determined that the topic of compulsory acquisition of land is to be examined by way of hearing or local inquiry, it need not hold a procedure meeting, but may do so if it considers it expedient.

Determination of procedure where an application is varied to include a compulsory acquisition request for additional land

23. The examining authority must determine the procedure for the examination of an application that has been varied under these Regulations, by the latest of—

(a) the end of the 28 days specified in regulation 10(1) of the 2025 Examination Regulations (determination of procedure), or

(b) the end of 21 days beginning with the day specified for the purpose of regulation 20(5)(m).

Penderfynu ar amserlen ar gyfer archwiliad pan fo cais yn cael ei amrywio i gynnwys archiad caffael gorfodol am dir ychwanegol

24.—(1) Pan fo'r awdurdod archwilio wedi dyfarnu'r weithdrefn ar gyfer archwilio cais sydd wedi ei amrywio o dan y Rheoliadau hyn, rhaid iddo lunio amserlen, neu os oes un wedi ei lunio o dan reoliad 11(1) o Reoliadau Archwiliadau 2025, amrywio'r amserlen ar gyfer archwilio'r cais.

(2) Pan fo'r awdurdod archwilio yn llunio neu'n amrywio amserlen o dan y rheoliad hwn, rhaid iddo wahodd unrhyw berson a nodir yn y cyfeirlyfr i gyflwyno sylwadau pellach ynghylch caffael ei dir yn orfodol mewn unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad lleol os cynhelir un, neu fel arall yn ysgrifenedig.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr amserlen yw amserlen ar y ffurf a nodir yn rheoliad 11(2) o Reoliadau Archwiliadau 2025.

Addasu Rheoliadau Archwiliadau 2025 pan fo cais yn cael ei amrywio i gynnwys archiad caffael gorfodol am dir ychwanegol

25. Pan fo cais yn cael ei amrywio o dan y Rheoliadau hyn, mae Rheoliadau Archwiliadau 2025 yn gymwys gyda'r addasiadau a ganlyn—

(a) mae'r cyfnod ar gyfer sylwadau yn y diffiniad o "sylwadau ysgrifenedig cychwynnol" i gynnwys y cyfnod sy'n dod i ben â'r dyddiad a bennir o dan reoliad 20(5)(m) o'r Rheoliadau hyn;

(b) mae'r diffiniad o "parti a chanddo fuddiant" yn cynnwys unrhyw berson a nodir yn y cyfeirlyfr.

Hysbysiad o benderfyniadau

26.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i benderfyniadau ar gais am gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol neu sydd wedi ei amrywio yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(2) Yn ogystal â'r personau a restrir yn adran 60(2) o Ddeddf 2024 ac Atodlen 2 i Reoliadau Archwiliadau 2025, rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad o'r penderfyniad i naill ai wneud gorchymyn cydsyniad seilwaith neu wrthod cydsyniad seilwaith i unrhyw berson a restrir yn y cyfeirlyfr.

(3) Yn ogystal â'r personau a restrir yn adran 60(4) o Ddeddf 2024 ac Atodlen 2 i Reoliadau Archwiliadau 2025, rhaid i'r awdurdod archwilio roi hysbysiad o'r penderfyniad naill ai bod gorchymyn cydsyniad seilwaith i gael ei wneud neu i wrthod cydsyniad seilwaith i unrhyw berson a restrir yn y cyfeirlyfr.

Determination of timetable for examination where an application is varied to include a compulsory acquisition request for additional land

24.—(1) Where the examining authority has determined the procedure for the examination of an application that has been varied under these Regulations, it must prepare a timetable, or if one has been prepared under regulation 11(1)of the 2025 Examination Regulations, vary the timetable for the examination of the application.

(2) Where the examining authority prepares or varies a timetable under this regulation, they must invite any person identified in the book of reference to make further representations about the compulsory acquisition of their land at any hearing or local inquiry if one is to be held, or otherwise in writing.

(3) In this regulation timetable means a timetable in the form set out in regulation 11(2) of the 2025 Examination Regulations.

Modification of the 2025 Examination Regulations where an application is varied to include a compulsory acquisition request for additional land

25. Where an application is varied under these Regulations, the 2025 Examination Regulations apply with the following modifications—

(a) the representation period in the definition of "initial written representations" is to include the period ending with the date specified under regulation 20(5)(m) of these Regulations;

(b) the definition of "interested party" is to include any person identified in the book of reference.

Notice of decisions

26.—(1) This regulation applies to decisions on an application for infrastructure consent that contains a compulsory acquisition request or that has been varied in accordance with these Regulations.

(2) In addition to the persons listed in section 60(2) of the 2024 Act and Schedule 2 to the 2025 Examination Regulations, the Welsh Ministers must give notice of the decision to either make an infrastructure consent order or refuse infrastructure consent to any person listed in the book of reference.

(3) In addition to the persons listed in section 60(4) of the 2024 Act and Schedule 2 to the 2025 Examination Regulations, the examining authority must give notice of the decision either that an infrastructure consent order is to be made or to refuse infrastructure consent to any person listed in the book of reference.

Hysbysiad o resymau

27.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i ddatganiad a lunnir o dan adran 62(1) neu (2) o Ddeddf 2024 mewn perthynas â phenderfyniad ar gais sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol neu sydd wedi ei amrywio yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(2) Yn ogystal â'r personau a restrir yn adran 62(3) o Ddeddf 2024 ac Atodlen 2 i Reoliadau Archwiliadau 2025, rhaid i Weinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio (yn ôl y digwydd) ddarparu copi o'r datganiad i'r personau a restrir yn y cyfeirlyfr.

Notice of reasons

27.—(1) This regulation applies to a statement prepared under section 62(1) or (2) of the 2024 Act in relation to a decision on an application that contains a compulsory acquisition request or that has been varied in accordance with these Regulations.

(2) In addition to the persons listed in section 62(3) of the 2024 Act and Schedule 2 to the 2025 Examination Regulations, the Welsh Ministers or examining authority (as the case may be) must provide a copy of the statement to the persons listed in the book of reference.

RHAN 7

Y weithdrefn pan roddir cydsyniad seilwaith

PART 7

Procedure where infrastructure consent is granted

Hysbysiad o awdurdodiad i gaffael yn orfodol

28.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru wedi gwneud gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi caffael tir yn orfodol.

(2) Rhaid i'r darpar brynwr—

(a) sicrhau bod copi o'r gorchymyn cydsyniad seilwaith ar gael i'r cyhoedd edrych arno, ar bob adeg resymol, mewn man yn ardal leol tir y gorchymyn;

(b) rhoi hysbysiad caffael gorfodol i unrhyw berson a fyddai'n berson cymwys at ddibenion adran 12(1) o Ddeddf Caffael Tir 1981(**1**) (hysbysiad i berchnogion, lesddeiliaid, meddianwyr ac eraill);

(c) gosod hysbysiad caffael gorfodol ar wrthrych neu wrthrychau amlwg ar dir y gorchymyn neu gerllaw iddo fel ei fod yn weladwy gan y cyhoedd.

(3) Dylid cyfeirio hysbysiad a osodir ar wrthrych at unrhyw berson sy'n meddiannu'r tir ac unrhyw berson a chanddo fuddiant yn y tir.

Notice of authorisation of compulsory acquisition

28.—(1) This regulation applies where the Welsh Ministers have made an infrastructure consent order that authorises the compulsory acquisition of land.

(2) The prospective purchaser must—

(a) make a copy of the infrastructure consent order available for inspection by the public, at all reasonable hours, at a place in the locality of the order land;

(b) give a compulsory acquisition notice to any person who would be a qualifying person for the purposes of section 12(1) of the Acquisition of Land Act 1981(**1**) (notice to owners, lessees, occupiers and others);

(c) affix a compulsory acquisition notice to a conspicuous object or objects on or near the order land so as to be visible by the public.

(3) A notice affixed to an object should be addressed to any person occupying the land and any person with an interest in the land.

Ffurf hysbysiad caffael gorfodol

29.—(1) Rhaid i hysbysiad caffael gorfodol, yn ogystal â'r gofynion yn adran 72(2) o Ddeddf 2024, gynnwys—

(a) enw'r gorchymyn cydsyniad seilwaith (y Gorchymyn),

Form of compulsory acquisition notice

29.—(1) A compulsory acquisition notice must, in addition to the requirements in section 72(2) of the 2024 Act, include—

(a) the title of the infrastructure consent order (the Order),

(**1**) Deddf Caffael Tir 1981 (p. 67).

(**1**) Acquisition of Land Act 1981 (c. 67).

(b) y dyddiad y gwnaed y Gorchymyn,

(c) datganiad o ddiben y ddarpariaeth sy'n awdurdodi caffael gorfodol,

(d) manylion ynghylch ym mha le ac yn ystod pa oriau y mae copi o'r Gorchymyn ar gael i edrych arno, ac

(e) datganiad na chaniateir herio'r Gorchymyn ond yn unol ag adran 96 o Ddeddf 2024.

(2) Pan fo'r Gorchymyn yn cymhwyso Rhannau 2 a 3 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981(**1**), rhaid i'r hysbysiad caffael gorfodol hefyd gynnwys—

(a) enw'r darpar brynwr,

(b) datganiad y caniateir caffael tir drwy weithredu declarasiwn breinio cyffredinol o dan adran 4 o'r Ddeddf honno,

(c) atodlen sy'n nodi tir a allai fod yn ddarostyngedig i ddeclarasiwn breinio cyffredinol,

(d) datganiad declarasiwn breinio cyffredinol, ac

(e) gwahoddiad i unrhyw berson a fyddai'n gallu hawlio digolledia mewn perthynas â'r tir a nodwyd i ddarparu—

(i) enw a chyfeiriad unrhyw berson a chanddo fuddiant yn y tir,

(ii) disgrifiad o'r tir y ceir y buddiant ynddo, a

(iii) disgrifiad o'r buddiant a ddelir yn y tir.

Datganiad declarasiwn breinio cyffredinol

30. Rhaid i ddatganiad declarasiwn breinio cyffredinol gynnwys—

(a) y caiff y darpar brynwr gaffael unrhyw dir a nodwyd drwy weithredu declarasiwn breinio cyffredinol o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981,

(b) bod rhaid i'r darpar brynwr gyflwyno hysbysiad o ddeclarasiwn breinio cyffredinol i bob meddiannydd ar y tir y mae'n ymwneud ag ef, ac i unrhyw berson sydd wedi darparu gwybodaeth berthnasol mewn ymateb i'r gwahoddiad sy'n ofynnol gan reoliad 29(2)(e),

(c) pan gyflwynir yr hysbysiadau yn (b) y bydd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, nad yw'n llai na thri mis, yn dechrau,

(**1**) Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 (p. 66).

(b) the date on which the Order was made,

(c) a statement of the purpose of the provision authorising compulsory acquisition,

(d) details of where and during which hours a copy of the Order is available for inspection, and

(e) a statement that the Order may only be challenged in accordance with section 96 of the 2024 Act.

(2) Where the Order applies Parts 2 and 3 of the Compulsory Purchase (Vesting Declarations) Act 1981(**1**), the compulsory acquisition notice must also include—

(a) the name of the prospective purchaser,

(b) a statement that land may be acquired by executing a general vesting declaration under section 4 of that Act,

(c) a schedule identifying land that may be subject to a general vesting declaration,

(d) a general vesting declaration statement, and

(e) an invitation to any person who would be able to claim compensation in relation to the identified land to provide—

(i) the name and address of any person with an interest in the land,

(ii) a description of the land in which the interest lies, and

(iii) a description of the interest held in the land.

General vesting declaration statement

30. A general vesting declaration statement must include—

(a) that the prospective purchaser may acquire any of the identified land by executing a general vesting declaration under section 4 of the Compulsory Purchase (Vesting Declarations) Act 1981,

(b) that the prospective purchaser must serve a notice of a general vesting declaration on every occupier of the land to which it relates, and on any person who has provided relevant information in response to the invitation required by regulation 29(2)(e),

(c) that when the notices in (b) are served the period specified in the notice, of not less than three months, will begin to run,

(**1**) Compulsory Purchase (Vesting Declarations) Act 1981 (c. 66).

(d) ar y dyddiad breinio, sef y diwrnod ar ôl i'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad ddod i ben, y bydd y tir a ddisgrifir yn y datganiad yn cael ei freinio yn y darpar brynwr ac y bydd ganddo hawlogaeth i fynd ar y tir a'i feddiannu,

(e) y bydd gan bob person y gallai'r darpar brynwr fod wedi cyflwyno hysbysiad i drafod telerau iddo hawlogaeth i hawlio digolledia am gaffael ei fuddiant yn y tir, ac y bydd llog yn cronni ar y digolledia hwnnw o'r dyddiad breinio,

(f) na fydd declarasiwn breinio cyffredinol yn gymwys i denantiaeth o flwyddyn neu lai, neu denantiaeth hir sydd i ddod i ben o fewn 12 mis i roi'r hysbysiad,

(g) y bydd tenantiaeth o'r fath yn ddarostyngedig i hysbysiad i drafod telerau ar wahân, ac

(h) y bydd breinio'r tir yn ddarostyngedig i denantiaeth o'r fath hyd nes y daw'r denantiaeth i ben neu nes y daw cyfnod o ddim llai na 3 mis ar ôl cyflwyno hysbysiad o fwriad y darpar brynwr i gymryd meddiant o'r tir i'r tenant a phob meddiannydd arall ar y tir i ben.

(d) that on the vesting date, being the day after the period specified in the notice expires, the land described in the declaration will vest in the prospective purchaser and they will be entitled to enter the land and take possession of it,

(e) that every person on whom the prospective purchaser could have served a notice to treat will be entitled to claim compensation for the acquisition of their interest in the land, and that interest will accrue on that compensation from the vesting date,

(f) that a general vesting declaration will not apply to a tenancy of a year or less, or a long tenancy that is due to expire within 12 months of the giving of the notice,

(g) that such a tenancy will be subject to a separate notice to treat, and

(h) that the vesting of the land will be subject to such a tenancy until the tenancy ends or until the expiry of a period of not less than 3 months after the service of a notice of the prospective purchaser's intention to take possession of the land on the tenant and every other occupier of the land.

Rebecca Evans

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
14 Mehefin 2025

Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning, one of the Welsh Ministers
14 June 2025

©℗Hawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39696-6

£8.14

9 780348 396966